

Eluned Morgan AS

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Llywodraeth Cymru

17 Mehefin 2020

Annwyl Eluned,

### **Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020–21**

Trafododd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21 yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin.

Deallaf fod y dyraniad cyllideb ar gyfer y Gymraeg wedi gostwng £2 filiwn yn eich portffolio. Mae'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Atodol a osodwyd gerbron y Senedd yn dweud bod yr arbedion hyn ar gael 'o ganlyniad i addasu'r amgylchedd dysgu a rheoli'r ddarpariaeth yn yr hinsawdd sydd ohoni' ac o ganlyniad i ail-flaenoriaethu cyllid yn ymwneud â 'gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ond nad oes modd iddynt ddigwydd nawr o ganlyniad i'r pandemig neu maent wedi cael eu gohirio neu eu haddasu'.

Sylwaf hefyd i £350,000 gael ei ail-flaenoriaethu o BEL Cymraeg mewn Addysg ym mhorthffolio'r Gweinidog Addysg. Roedd y cyllid hwn i'w ddefnyddio i gefnogi darpariaeth blynnyddoedd cynnar megis Mudiad Meithrin, cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a Choleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi rhoi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i effaith COVID-19 ar feysydd sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Mae'n nodi bod y Ganolfan wedi trafod gostyngiad yn ei chyllideb â Llywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2020, a'r canlyniad oedd gostyngiad o £1.5 miliwn yn



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ [SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

☎ 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)

☎ 0300 200 6565

ei chyllideb rhwng Ebrill 2020 a Gorffennaf 2021. O'r gostyngiad gwerth £1.5 miliwn, daw £1.02 filiwn o gyllideb Cymraeg Gwaith. O ganlyniad, bydd yn rhaid i'r Ganolfan oedi peth o'i rhaglen waith arfaethedig ac ystyried cyfleoedd eraill i weithwyr ddysgu Cymraeg.

Sylwaf o'i thystiolaeth fod y Ganolfan wedi ehangu ei dysgu ar-lein i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y galw yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r ganolfan wedi darparu 89 o ddsbarthiadau ar-lein ac mae wedi cofrestru 1,300 o ddysgwyr. Mae'r cynnydd hwn yn y galw am ddysgu digidol wedi dangos bod awydd ymysg y cyhoedd i ddysgu Cymraeg. Mae'r Pwyllgor am sicrhau ein bod yn datblygu hyn ymhellach ar hyn ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben. Sylwaf hefyd o dystiolaeth y Ganolfan fod trafodaethau yn mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru ynghylch doriadau pellach i'r gyllideb.

Rwy'n mawr obeithio y gallwch chi roi sicrwydd i ni mai mesur dros dro yw'r gostyngiad yn y gyllideb yn eich portffolio, ac y bydd y gyllideb yn cael ei hadfer yn llawn ar ôl Gorffennaf 2021. Yn wir, os ydym am ddatblygu'r cynnydd hwn yn niddordeb pobl mewn dysgu'r iaith ar-lein, bydd angen buddsoddiad ychwanegol i gefnogi dysgu digidol, ochr yn ochr â dulliau dysgu mwy traddodiadol yn y dyfodol.

Rwy'n awyddus i sicrhau na fydd y tir a enillwyd gan y Ganolfan yn cael ei gollu. A fydd eich adran yn cynnal dadansoddiad risg o effaith lleihau cyllideb y Ganolfan?

Mae'n hanfodol bod cyllid yn cael ei sianelu i ddelio â bygythiad uniongyrchol COVID-19, ond rwy'n awyddus i'r gostyngiad cyllid beidio â bod yn barhaol. A allwch roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod digon o gyllid i gyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Yn amlwg, rhaid blaenoriaethu adnoddau i leihau niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol yn deillio o bandemig COVID-19. Blaenoriaeth hefyd yw cefnogi'r rhai y mae eu bywoliaeth yn y fantol am na allant weithio. Felly, rwy'n croesawu ac yn cefnogi ail-flaenoriaethu £800,000 o gyllideb Digwyddiadau yng Nghymru i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn sgil canslo digwyddiadau yn 2020. A allwch roi gwybod imi a fyddwch yn cwrdd



â chynrychiolwyr o'r sefydliadau hyn i asesu effaith ariannol canslo'r digwyddiadau hyn? Hoffai'r Pwyllgor hefyd wybod a yw'r Urdd a sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r Gymraeg wedi cysylltu â chi am gymorth ychwanegol yn y tymor byr ac yn y tymor hwy.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn y llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Helen Mary Jones." The signature is written in a cursive, flowing style.

Helen Mary Jones

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

c.c. Llyr Gruffydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

